Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Adolygiad ansawdd allanol

Mawrth 2022
(diweddarwyd ym mis Medi 2024)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn diweddaru’r fersiwn flaenorol o’r Fframwaith Asesu Ansawdd (Mawrth 2022) i ystyried newidiadau i’r Cod Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch. Bydd yn dod i rym ar gyfer Adolygiadau Gwella Ansawdd a gynhelir o fis Awst 2025.

2. Mae’n darparu manylion yr adolygiad ansawdd allanol y mae'n ofynnol i'w gynnal ar sefydliadau a reoleiddir o dan Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru.

3. Mae’r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau bod y trefniadau adolygu ansawdd yn bodloni eu gofynion ar gyfer goruchwyliaeth addysgol ar drefniadau Noddi Myfyrwyr, a byddwn yn cysylltu â'r Swyddfa i sicrhau bod unrhyw drefniadau diwygiedig yn parhau i wneud hynny.

4. Daw’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) yn weithredol ym mis Awst 2024, gyda chyfrifoldeb am oruchwylio’r sector addysg drydyddol yng Nghymru (h.y. addysg bellach (AB), addysg uwch (AU), prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned, lleoliadau chweched dosbarth) ac ymchwil ac arloesi a gyllidir gan Lywodraeth Cymru yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-16.

5. Mae holl swyddogaethau a chyfrifoldebau CCAUC wedi trosglwyddo i Medr. Tan 1 Awst 2026 bydd Medr yn parhau i weithredu pwerau ansawdd CCAUC i oruchwylio ansawdd darpariaeth addysg uwch. Felly dylid darllen cyfeiriadau at CCAUC yn y ddogfen hon fel cyfeiriadau at Medr lle y bo’n briodol. Rydym yn disgwyl y byddwn yn defnyddio’r gofynion adolygu diwygiedig hyn am weddill y cylch adolygu cyfredol, yn amodol ar ddiweddariadau i adlewyrchu newidiadau allanol.

## Adolygiad ansawdd allanol

6. Mae'r gofyniad i gynnal adolygiadau ansawdd allanol yn ystyriol o gyfrifoldebau statudol CCAUC o ran yr addysg a ddarperir gan ac/neu ar ran sefydliadau a reoleiddir, gan gynnwys yr hyn sy'n annigonol, neu'r hyn sy'n debygol o ddod yn annigonol. Mae'n rhoi'r sicrwydd sy’n ofynnol o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 o ran ansawdd, er mwyn galluogi cymeradwyo Cynlluniau Ffioedd a Mynediad, ac felly galluogi sefydliadau a reoleiddir i gael mynediad at gymorth i fyfyrwyr.

7. Rhaid i'r adolygiad ansawdd allanol gydymffurfio â gofynion y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) ar gyfer adolygiadau o'r fath. Mae'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd yn galluogi darparwyr addysg uwch i ddangos ansawdd a chynyddu tryloywder, gan helpu i feithrin cydymddiriedaeth a chydnabyddiaeth well o'u cymwysterau, eu rhaglenni a darpariaeth arall. Defnyddir y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd gan sefydliadau ac asiantaethau sicrwydd ansawdd fel dogfen gyfeirio ar gyfer systemau sicrwydd ansawdd mewnol ac allanol mewn addysg uwch.

8. Byddwn yn cynnal cylch treigl o adolygiadau, sy'n golygu y gallai newidiadau gael eu cyflwyno unrhyw bryd (gan roi 12 mis o rybudd o leiaf i sefydliadau cyn eu hadolygiadau). Bydd hyn yn golygu bod modd diweddaru'r dull pan fo'n briodol, yn hytrach nag aros tan ddiwedd cylch. Mae hyn yn bwysig yng nghyd-destun Comisiwn, a allai arwain at newidiadau i ofynion adolygu, ac o ystyried yr amrywiaeth gynyddol a geir mewn darpariaeth addysg uwch.

Corff adolygu

9. Gan bod rhaid i'r adolygiad allanol gydymffurfio â gofynion y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd, mae'n hanfodol i'r corff sy'n cynnal yr adolygiadau fod ar y Gofrestr Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg Uwch (EQAR). Bydd CCAUC yn comisiynu adolygiadau gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA). Bydd CCAUC yn cadarnhau amseriad adolygiadau gyda phob sefydliad cyn gynted â phosibl, ynghyd â chadarnhau'r flwyddyn segur.

Aelodaeth y tîm adolygu

10. Yn unol â gofynion y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer adolygiadau ansawdd allanol, rhaid i'r tîm adolygu gynnwys cymheiriaid arbenigol. Rhaid i'r tîm gynnwys aelod o blith y myfyrwyr. Gall y tîm adolygu hefyd gynnwys aelod rhyngwladol, yn enwedig pan fo sefydliad yn nodi ei fod ar flaen y gad yn y byd mewn meysydd astudio neu weithgarwch penodol.

11. Gellir cynnal adolygiadau yn ddwyieithog, yn ôl dewis y darparwr, a bydd angen i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd roi ystyriaeth i hyn wrth benodi tîm adolygu. Bydd angen i un adolygwr o leiaf fod â dealltwriaeth am addysg uwch yng Nghymru a rôl y Gymraeg. Bydd y tîm adolygu hefyd yn cael hyfforddiant ar ystyriaethau o ran y Gymraeg.

Y ddarpariaeth a gwmpesir

12. Rhaid i'r adolygiad sicrwydd ansawdd allanol gwmpasu'r holl ddarpariaeth AU a gyflenwir gan, neu ar ran, y sefydliad, gan gynnwys gradd-brentisiaethau, darpariaeth is-gontractiol (freiniol), campysau cangen ac unrhyw ddarpariaeth dramor arall. Fodd bynnag, lle y bo'n ofynnol i sefydliadau partner, darparu neu gymorth hwythau hefyd gael adolygiad ansawdd allanol, bydd hi'n briodol cyfyngu'r adolygiad o'r sefydliad dyfarnu i'w reolaeth ar y trefniant hwnnw, er mwyn osgoi ailadrodd gweithgarwch adolygu.

13. Ni fydd hyn yn rhagwahardd CCAUC rhag comisiynu adolygiadau thematig a/neu seiliedig ar risg, nac ymchwiliadau i bryderon.

Gofynion sylfaenol perthnasol

14. The relevant baseline requirements against which regulated institutions will be reviewed include the following:

- bod safonau academaidd cyrsiau'n ateb gofynion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol sef, yng Nghymru, y Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru;
- egwyddorion y cytunwyd arnynt ar gyfer y sector yng Nghod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch ynghyd â datganiadau o nodweddion a datganiadau o feincnodau pynciol, lle y bo'n briodol.

Gwella

15. Mae gwella yn ffocws allweddol o fewn yr adolygiad ansawdd allanol yng Nghymru. Ar y cyd â'r sector a rhanddeiliaid eraill, bydd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn ystyried sut y gellir cryfhau'r ffocws ar wella o fewn adolygiadau, er mwyn sicrhau cydbwysedd gwell rhwng gwella a sicrwydd. Rydym yn disgwyl i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ystyried sut i sicrhau nad yw sefydliadau a adolygir yn rhan gynharach y cylch dan anfantais o'i gymharu â'r sefydliadau a adolygir yn ddiweddarach yn y cylch, o ran gweithgarwch gwella.

16. Bydd canlyniadau'r adolygiad yn cynnwys datganiad ar ddull strategol y sefydliad o wella profiad academaidd myfyrwyr. Bydd hyn yn cynnwys sut mae'r sefydliad yn ystyried adborth ac argymhellion gan y corff myfyrwyr. Ni fydd barn benodol ynglŷn â gwella, ond bydd CCAUC yn parhau i adolygu hyn mewn ymgynghoriad â darparwyr.

17. Bydd CCAUC yn cyllido peth gweithgarwch gwella ar sail flynyddol. Hefyd, bydd CCAUC yn darparu cyllid ar gyfer peth gweithgarwch gwella ychwanegol yn y flwyddyn segur rhwng adolygiadau. Bydd rhywfaint o'r gweithgarwch hwn yn digwydd mewn partneriaeth â'r Alban a Gogledd Iwerddon. O ystyried natur gwaith gwella, mae ffurf y gweithgarwch hwn yn debygol o newid dros gylch adolygu.

18. Disgwyliwn i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd:
    - weithio gyda darparwyr, adolygwyr, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill i benderfynu sut y gellir cryfhau elfen wella'r adolygiad, gan gydnabod y gallai hyn newid dros y cylch adolygu;
    - gweithio gyda darparwyr i benderfynu ar natur a ffurf fwyaf priodol gweithgarwch gwella trwy gydol y cylch adolygu;
    - ystyried sut i ddarparu ar gyfer y posibilrwydd y gallai darparwyr a adolygir ar ddechrau'r cylch fod mewn sefyllfa wahanol i'r rhai a adolygir tuag at ddiwedd y cylch, er mwyn sicrhau cydraddoldeb;
    - ystyried mewn mwy o fanylder sut y gellid cyflawni gweithgarwch ansawdd ar y cyd ar draws Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn enwedig yn ystod y flwyddyn segur, a chan gynnwys cyfranogiad gan ddarparwyr yn Lloegr lle byddai hynny'n ychwanegu gwerth;
    - cynnwys yn y fethodoleg ofyniad i adolygwyr adnabod cyfleoedd ar gyfer gwella;
    - sicrhau bod adroddiadau adolygu'n cynnwys datganiad ar ddull strategol y sefydliad o wella profiad academaidd myfyrwyr;
    - ymgysylltu â darparwyr trwy gydol y cylch adolygu i rannu astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â gwella.

Ymgysylltu â myfyrwyr

19. Rhaid i'r tîm adolygu gwrdd ag Undeb y Myfyrwyr a/neu gynrychiolwyr y corff myfyrwyr amrywiol[1]. Yn unol â'r dull o leihau baich, dylai'r adolygiad ganolbwyntio ar ddogfennaeth a gynhyrchir fel rhan o brosesau'r Undeb y Myfyrwyr ei hun, er enghraifft trwy gynnwys crynodeb byr gyda'r adroddiadau ansawdd blynyddol sy'n myfyrio ynghylch y cyfnod ers yr adolygiad diwethaf. Beth bynnag, lle mae Undeb y Myfyrwyr yn cynhyrchu adroddiadau ansawdd blynyddol ar ran y corff myfyrwyr, fel arfer dylai'r rhain gael eu hystyried gan y tîm fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth arall y gallai'r corff myfyrwyr ddymuno ei chyflwyno.

20. Rhaid i'r sefydliad gefnogi cyfranogiad Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolwyr yn yr adolygiad, a darparu hyfforddiant, cyngor, arweiniad a mynediad at wybodaeth/adnoddau fel y bo'n briodol.

21. Caiff Undebau Myfyrwyr gyflwyno dogfennau mewn partneriaeth â'u sefydliad, ond bydd angen iddynt gydnabod y gallai newid i ddefnyddio ddogfennaeth sy'n bodoli eisoes neu ddogfennaeth fwy byw achosi rhai heriau.

22. Disgwyliwn i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd weithio gydag Undebau Myfyrwyr i bennu sut i leihau'r baich o gynhyrchu sylwadau gan fyfyrwyr, e.e. trwy ganolbwyntio ar ddefnyddio adroddiadau ansawdd blynyddol, lle cânt eu cynhyrchu.

Barnau

23. Er mwyn hwyluso'r broses o gymharu canlyniadau, dylai'r adolygiad allanol gynnwys cyfres o farnau cyffredin.

24. Defnyddir y derminoleg ganlynol ar gyfer barnau'r adolygiad sicrwydd ansawdd allanol yng Nghymru:
   a) Yn ateb y gofynion
   b) Yn ateb y gofynion gydag amodau - bydd angen i'r sefydliad roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn mynd i'r afael ag agweddau sy'n destun pryder dybryd [2]
   c) Nid yw'n ateb y gofynion.

25. Bydd yr adolygiad ansawdd allanol yn gwerthuso a yw dulliau sicrhau ansawdd mewnol y sefydliad a reoleiddir yn cydymffurfio â'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd. Bydd hefyd yn gwerthuso a yw sefydliadau'n ateb gofynion sylfaenol Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru.

26. Ffurfir barn ar ôl ystyried a yw'r sefydliad yn ateb y canlynol ai peidio:
   - gofynion y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer sicrwydd ansawdd mewnol;

[1] Myfyrwyr rhan-amser, llawnamser, rhyngwladol, Ewropeaidd, o'r DU, ôl-raddedig, is-raddedig, aeddfed ac anhraddodiadol, myfyrwyr AU breiniol mewn AB, dysgwyr o bell a dysgwyr sy'n dewis derbyn AU drwy gyfrwng y Gymraeg
[2] Bydd angen i'r amodau yn gysylltiedig â'r dyfarniad hwn egluro'r problemau dan sylw.

- gofynion perthnasol y safonau sylfaenol ar gyfer Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru.

27. Caiff gwybodaeth am y modd y byddwn yn ymdrin â chanlyniadau 'yn ateb y gofynion gydag amodau' neu 'nid yw'n ateb y gofynion' ei disgrifio yn ein Gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg. Bydd unrhyw ganlyniadau nad ymdrinnir yn foddhaol â hwy trwy’r gweithdrefnau hynny’n cael eu rhoi trwy’r prosesau a ddisgrifir yn ein Datganiad Ymyrryd.

28. Os ceir unrhyw farnau 'yn ateb y gofynion gydag amodau', neu 'nid yw'n ateb y gofynion', bydd angen i sefydliadau roi cynllun gweithredu ar waith i’w gwneud yn bosibl diwygio’r dyfarniad o fewn 12 mis ar ôl cyhoeddi canlyniad yr adolygiad. Bydd angen iddynt gael gwiriad gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd bod y camau a gymerwyd mewn ymateb i ganlyniadau'r adolygiad wedi unioni unrhyw ddiffygion o fewn y raddfa amser honno, fel bod modd uwchraddio canlyniad y farn.

29. Mae uwchraddio barn yr adolygiad yn hanfodol, gan y bydd barn yr adolygiad allanol yn goleuo asesiad CCAUC wrth iddo benderfynu a yw sefydliadau'n ateb gofynion ansawdd y Cynllun Ffioedd a Mynediad. Bydd angen cyhoeddi unrhyw ddiwygiad i'r farn ar ôl rhoi cynllun gweithredu ar waith yn foddhaol hefyd.

Cymeradwyaeth

30. Gellir cymeradwyo agweddau lle ceir arfer rhagorol neu arfer gorau mewn perthynas â phob maes o fewn yr adolygiad. Datganiadau fydd y rhain, yn hytrach na barnau.

Cyhoeddi adroddiadau

31. Bydd angen cyhoeddi'r adroddiad, fel a nodir yn y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd. Dylai'r adroddiad hefyd gynnwys argymhellion, yn unol â gofynion y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd.

Canlyniadau adolygiadau neu arolygiadau gan gyrff eraill

32. Dylai tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad gynnwys canlyniadau adolygiadau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau gan Gyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio (PSRBs), a all achredu cyrsiau penodol, ac a all hefyd adolygu/ arolygu darpariaeth mewn sefydliadau a reoleiddir. Hefyd, mae gan Arolygiaeth Ei Fawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) gyfrifoldeb statudol am arolygu darpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, AB mewn AU, a sefydliadau addysg bellach a allai hefyd fod yn cynnig darpariaeth addysg uwch.

33. Mae adolygiadau eraill hefyd yn cynnwys canlyniadau adolygiadau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd o bartneriaid a ddilysir. Ystyrir bod canlyniadau 'yn ateb y gofynion gydag amodau' neu 'nid yw'n ateb y gofynion' (neu farnau cyfatebol, lle defnyddir dulliau adolygu eraill) yn adlewyrchiad ar y partner dilysu. Gall hyn

sbarduno ymchwiliad i bryderon, neu ystyriaeth ddilynol yn adolygiad nesaf y partner dilysu, os bydd yr adolygiad hwnnw o fewn graddfa amser resymol.

34. Mae'r Fframwaith Asesu Ansawdd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch sut y gall canlyniadau adolygiadau eraill sbarduno ein gweithdrefnau ar gyfer ansawdd annigonol.

<u>Dogfennaeth</u>

35. Nid ydym yn bwriadu rhagnodi'r ddogfennaeth y dylid ei defnyddio ar gyfer yr adolygiad. Fodd bynnag, er mwyn lleihau achosion o ddyblygu i'r eithaf, lleihau baich gweinyddol a galluogi'r adolygiad i ganolbwyntio'n bennaf ar oruchwyliaeth sefydliadau ar ansawdd, dylai'r adolygiad ganolbwyntio ar ddogfennaeth a gynhyrchir fel rhan o brosesau ansawdd y sefydliad ei hun.

36. Gall fod sawl ffordd o leihau'r baich sy'n gysylltiedig â dogfennaeth. Gallai opsiynau gynnwys disodli'r ddogfen hunanwerthuso â dogfennaeth megis adroddiadau ansawdd blynyddol sefydliadau i'r corff llywodraethu, gyda chrynodeb byr yn myfyrio ynghylch y cyfnod ers yr adolygiad diwethaf. Gellid defnyddio cofrestr newidiadau byw yn lle'r Adroddiad Newid.

37. Bydd sefydliadau'n dal i allu darparu dogfennaeth i'r tîm adolygu yn ddwyieithog, yn ôl eu dewis. Gallai newid i ddefnyddio dogfennaeth fyw neu ddogfennaeth sy'n bodoli eisoes hwyluso mwy o ymgysylltu ag adolygiadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

38. Disgwyliwn i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd:

- weithio gyda sefydliadau i benderfynu sut y gellir defnyddio dogfennaeth fyw neu ddogfennaeth sy'n bodoli eisoes mewn adolygiadau, yn hytrach na llunio dogfennaeth yn benodol at y diben hwnnw, a chydnabod na fyddai un dull yn gweddu i bob darparwr;
- gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod y dull hwn yn darparu cysondeb o ran yr wybodaeth sy'n ofynnol, gan osgoi dyblygu;
- gweithio gyda darparwyr i benderfynu sut orau i ail-gadarnhau, yn hytrach nag ail-brofi, y gofynion sylfaenol, wrth ffurfio'r barnau sicrwydd o fewn yr adolygiad.

<u>Data</u>

39. Bydd mwy o ddefnydd o ddata mewn adolygiadau, er mwyn sicrhau bod canlyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd hyn yn cynnwys y data a nodir yn y Fframwaith Asesu Ansawdd (h.y. patrymau gor-recriwtio/tan-recriwtio; cyfraddau'r rhai nad ydynt yn camu ymlaen; cyfraddau'r rhai nad ydynt yn cwblhau; deilliannau'r Arolwg Blynyddol o Fyfyrwyr; deilliannau graddau, gan gynnwys deilliannau gwahaniaethol ar gyfer myfyrwyr â nodweddion gwahanol; deilliannau cyflogaeth). Bydd CCAUC yn darparu'r data hyn i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd o dan ei gytundeb rhannu data.

40. Dylai data gwmpasu pob lefel a dull darparu, gan gynnwys AU mewn AB, a bydd angen ei asesu'n ansoddol, gan ddefnyddio gwybodaeth gyd-destunol, yn

ogystal ag yn feintiol. Bydd hyn helpu i ystyried ffactorau fel y pandemig, sy'n debygol o effeithio ar y data am nifer o flynyddoedd. Dylai’r ffocws fod ar wybodaeth gyd-destunol, tueddiadau a pherfformiad yn erbyn meincnodau lle y bo’n bosibl, a/neu ddeilliannau darparwyr ledled y DU.

Cudd-wybodaeth

41. Bydd CCAUC yn rhannu cudd-wybodaeth gyda’r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a'r tîm adolygu fel bod modd i adolygiadau roi sicrwydd inni ynghylch materion a adnabyddir trwy brosesau CCAUC. Bydd hyn yn cynnwys rhannu:
   - canlyniadau agweddau perthnasol ar ein proses Adolygiadau Risg sefydliadol;
   - adroddiadau ymweliadau sicrhau ansawdd bob tair blynedd;
   - datganiadau sicrwydd blynyddol sy’n gysylltiedig ag ansawdd;
   - argymhellion y Pwyllgor Asesu Ansawdd (QAC) sy’n ymwneud yn benodol â'r sefydliad, yn dilyn ystyried data a chudd-wybodaeth;
   - dadansoddiad CCAUC o ddata'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), data'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS) a data cysylltiedig;
   - gwybodaeth am gwynion neu honiadau sydd wedi dod i law CCAUC.

42. Byddwn hefyd yn rhannu cudd-wybodaeth am ddatblygiadau sefydliadol, a gwybodaeth gyd-destunol arall.

Mynychder adolygiadau

43. Fel arfer, dylid cynnal adolygiadau o leiaf bob pum mlynedd. Bydd blwyddyn segur yn cael ei chynnwys fel rhan o'r cylch, fel bod modd cyflawni gweithgarwch gwella mwy crynodedig.

44. Yn ogystal â hynny:
   - Mewn unrhyw achos lle bernir bod sefydliad 'yn ateb y gofynion gydag amodau', dylid cynnal adolygiad pellach ohono o fewn pedair blynedd i’r adolygiad blaenorol, hyd yn oed os yw'r farn honno wedi cael ei diwygio;
   - Mewn unrhyw achos lle bernir 'nad yw sefydliad yn ateb y gofynion', dylid cynnal adolygiad o fewn dwy flynedd i’r adolygiad blaenorol, hyd yn oed os yw'r farn honno wedi cael ei diwygio;
   - Os bu unrhyw newid sylweddol i strwythur sefydliad, e.e. trwy uno â sefydliad arall, neu ddod yn rhan o strwythur grŵp, fel arfer dylid cynnal adolygiad newydd o'r sefydliad cyfan ar y dyddiad cynharaf pan oedd hi'n bryd cynnal adolygiad o unrhyw un o'r partneriaid cyfansoddol.

45. Bydd CCAUC yn gweithredu dull seiliedig-ar-risg wrth benderfynu a ddylai unrhyw newidiadau sylweddol eraill i ddarpariaeth olygu ei bod hi’n ofynnol cynnal adolygiad llawn neu rannol cynharach. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth i'r canlynol:
   - canlyniadau proses Adolygu Risg Sefydliadol flynyddol CCAUC;
   - datganiadau sicrwydd blynyddol y corff llywodraethu ynghylch ansawdd;
   - Cynlluniau Ffioedd a Mynediad;
   - pryderon a godir ynghylch safonau ac ansawdd; ac

- ymgysylltiadau eraill CCAUC â sefydliadau.

Bydd y rhain yn cael eu hystyried yng nghyd-destun prosesau ansawdd y sefydliad ei hun.

46. Bydd CCAUC yn rhoi gwybod i'r sefydliad a oes angen iddo gael adolygiad pellach er mwyn ateb gofynion ansawdd cynlluniau Ffioedd a Mynediad. Bydd hyn hefyd yn gyfle i'r sefydliad gyflwyno tystiolaeth lle nad yw'n credu y dylai orfod cael adolygiad o'r fath.

47. Gan ddibynnu ar y mater(ion) sy'n sbarduno'r penderfyniad, gallai'r adolygiad cynharach fod yn adolygiad llawn, neu'n adolygiad o agwedd(au) b/penodol ar ddarpariaeth y sefydliad. Mae newidiadau a allai sbarduno penderfyniad yn cynnwys, er enghraifft, newidiadau sylweddol i nifer y myfyrwyr, y mathau o ddarpariaeth, darpariaeth gydweithredol ac ati.

48. Hefyd, fel a nodir yng Ngweithdrefnau CCAUC ar gyfer Cwynion yn erbyn Sefydliadau, gellir defnyddio ymchwiliad rhagarweiniol gan CCAUC i benderfynu a oes gofyn cynnal ymchwiliad llawn. Gallai canlyniadau unrhyw ymchwiliad o'r fath arwain hefyd at adolygiad llawn cynharach o'r sefydliad, neu adolygiad rhannol o agwedd(au) b/penodol ar ddarpariaeth y sefydliad.

Crynodeb

49. Ceir crynodeb isod o nodweddion allweddol yr adolygiad.

| Nodwedd | Disgrifiad |
|---|---|
| Y sefydliad sy'n adolygu | Asiantaeth Sicrhau Ansawdd |
| Aelodaeth y tîm adolygu | Cymheiriaid arbenigol, gan gynnwys (a) aelod(au) o blith y myfyrwyr ac aelod rhyngwladol os bydd sefydliad yn nodi ei fod ar flaen y gad yn y byd mewn meysydd astudio neu weithgarwch penodol. |
| Cwmpas yr adolygiad | Yr holl ddarpariaeth AU a gyflenwir gan y sefydliad neu ar ei ran, gan gynnwys gradd-brentisiaethau, darpariaeth freiniol, campysau cangen a darpariaeth dramor arall,<br>gyda ffocws ar sicrwydd a gwella. |
| Gofynion sylfaenol | • Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru<br>• Egwyddorion y cod ansawdd, a datganiadau o nodweddion a datganiadau o feincnodau pynciol, lle y bo'n briodol |
| Gwella | Bydd yr adolygiad yn cynnwys datganiad ynghylch dull strategol y sefydliad o wella profiad academaidd myfyrwyr. Bydd gwelliant yn ffocws allweddol i'r adolygiad. |
| Ymgysylltu â myfyrwyr | Rhaid i'r adolygiad ystyried safbwyntiau myfyrwyr cyfredol, a rhaid cwrdd â hwy fel rhan o'r adolygiad. Rhaid i'r sefydliad ddarparu hyfforddiant, cyngor ac arweiniad a mynediad at wybodaeth/adnoddau fel bo'n |

| Nodwedd | Disgrifiad |
|---|---|
| | briodol, er mwyn cynorthwyo Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolwyr i gymryd rhan. |
| Barnau | Terminoleg:<br>• Yn ateb y gofynion;<br>• Yn ateb y gofynion gydag amodau;<br>• Nid yw'n ateb y gofynion.<br>Dyfarniadau ar ôl ystyried a yw'r sefydliad yn ateb y canlynol ai peidio:<br>• gofynion y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer sicrwydd ansawdd mewnol<br>• gofynion perthnasol y safonau sylfaenol yn Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru. |
| Diwygio dyfarniad | Gellir diwygio dyfarniad, ar wahân i farn 'yn ateb y gofynion', ar ôl i'r sefydliad fynd i'r afael â'r mater(ion) a arweiniodd at y farn anfoddhaol o fewn 12 mis. |
| Cymeradwyaeth | Bydd cymeradwyaeth yn amlygu enghreifftiau o arfer rhagorol neu arfer gorau. |
| Adroddiad yr adolygiad | Rhaid ei gyhoeddi, a rhaid iddo gynnwys unrhyw argymhellion. |
| Canlyniadau adolygiadau ac arolygiadau gan gyrff eraill | Rhaid i sefydliadau a reoleiddir hysbysu CCAUC am unrhyw ganlyniadau anffafriol a geir mewn adolygiadau/arolygiadau gan Gorff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio (PSRB). Os oes goblygiadau difrifol i'r sefydliad, gall CCAUC gychwyn y Gweithdrefnau asesu ansawdd addysg a/neu weithredu'r Datganiad Ymyrryd. Gallai canlyniadau adolygu anffafriol ar gyfer partneriaid a ddilyswyd sbarduno ymchwiliad i bryderon, neu ystyriaeth ddilynol yn adolygiad nesaf y partner dilysu. |
| Dogfennaeth | Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio cymaint â phosibl ar ddogfennaeth a gynhyrchir fel rhan o brosesau'r sefydliad ac undeb y myfyrwyr eu hunain. |
| Rhannu data a chudd-wybodaeth | Bydd CCAUC yn rhannu data a chudd- wybodaeth gyda’r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a'r tîm adolygu cyn iddynt gynnal adolygiadau |
| Mynychder adolygiadau | O leiaf bob pum blynedd. |

## Materion cysylltiedig

50. Yn **Atodiad A** nodir prosesau a ffactorau sy'n cyfrannu at y dull adolygu.

Datganiadau sicrwydd blynyddol

51. Mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno datganiadau sicrwydd blynyddol sy’n ymwneud ag ansawdd. Bydd CCAUC yn rhannu copi o'r rhain gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd fel rhan o ddogfennaeth yr adolygiad.

Ymweliadau bob tair blynedd

52. Mae’r ymweliad bob tair blynedd gan CCAUC â sefydliadau a reoleiddir yn ymgorffori ansawdd. Mae'r ymweliadau'n cyd-fynd â'r amserlen ar gyfer ymweliadau'r Cyngor â darparwyr, ac maent wedi'u bwriadu i geisio gwybodaeth bellach am y modd y galluogir y corff llywodraethu i gwblhau'r datganiadau sicrwydd blynyddol sy’n ymwneud ag ansawdd. Os yw'n briodol, bydd CCAUC yn rhannu adroddiadau'r ymweliadau bob tair blynedd gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd cyn yr adolygiad ansawdd allanol.


53. Mae'r ymweliadau'n cynnwys ymgysylltu â'r corff llywodraethu, uwch reolwyr ac Undeb y Myfyrwyr, a ddylai ymgorffori cynrychiolaeth o'r corff myfyrwyr amrywiol. Gall yr ymweliad gynnwys ymholiadau sy'n deillio o'r adolygiad ansawdd allanol, Cynlluniau Ffioedd a Mynediad ac ymgysylltiadau eraill y sefydliad.

Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

54. Rhaid i unrhyw sefydliad sy'n dymuno parhau i fod yn rheoleiddiedig fod wedi cael adolygiad ansawdd allanol o'i ddarpariaeth addysg uwch (neu Adolygiad Addysg Uwch: Cymru cyfatebol, neu broses briodol arall gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd) yn y chwe blynedd ddiwethaf. Ni fydd canlyniadau adolygiadau/arolygiadau eraill yn ddigonol. Bydd angen i sefydliadau a reoleiddir ddarparu dolen i'r adroddiad cyhoeddedig ar gyfer CCAUC, fel rhan o'u ceisiadau am Gynllun Ffioedd a Mynediad. Rhaid i sefydliadau sy'n ceisio dod yn rheoleiddiedig gael Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru.

55. Bydd sefydliadau sydd eisoes yn cael eu rheoleiddio’n gallu gwneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad wrth ymdrin â chanlyniadau unrhyw farn(au) 'yn ateb y gofynion gydag amodau' neu 'nid yw'n ateb y gofynion'. Bydd angen iddynt gynnwys gwybodaeth i ddangos sut maent yn mynd i'r afael ag unrhyw ganlyniadau anffafriol a gafwyd yn yr adolygiad. Bydd ganddynt ddeuddeng mis i unioni'r mater(ion) a chael barn ddiwygiedig, gyhoeddedig gan y sefydliad a gynhaliodd yr adolygiad ansawdd allanol. Os byddant yn methu â chael barn ddiwygiedig o fewn y raddfa amser honno, tybir bod ganddynt ddarpariaeth sydd (yn debygol o fod) yn annigonol (yn y dyfodol), ac felly ni fyddant yn ateb y gofynion ansawdd ar gyfer sefydliadau a reoleiddir.

**Atodiad A: prosesau a ffactorau sy'n cyfrannu at adolygiad**



Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government